



Astudiaeth Achos Cynllunio Safle Gradd Bwyd: Welsh Hills Bakery



Trosolwg



Busnes teuluol yn nwylo'r drydedd genhedlaeth yw Welsh Hills Bakery, ac mae'n arbenigo mewn cynnyrch di-glwten, di-wenith a heb gynnyrch llaeth. Mae'r cwmni sy'n seiliedig yn Hirwaun yn Ne Cymru yn cyflogi mwy na 60 o staff ar hyn o bryd ac yn cyflenwi mwy nag 80 o linellau cynnyrch sydd ar gael ar-lein ac yn cael eu dosbarthu'n eang yn Ewrop, Llychlyn, Awstralia ac UDA.

Yn 2001, dechreuodd y cwmni gynhyrchu cynnyrch o ansawdd uchel sydd heb gynhwysion penodol, gan arbenigo mewn ryseitiau di-glwten. Ei brif bortffolio o gwsmeriaid ar y pryd oedd cyflenwi cynnyrch di-glwten i brif archfarchnadoedd y Deyrnas Unedig o dan frand yr archfarchnadoedd hynny. Yn 2008 datblygodd y cwmni ei frand ei hun o gynnyrch di-glwten o'r enw "Lovemore Free From Foods" sy'n cynhyrchu amrywiaeth o eitemau pobi di-glwten a heb gynnyrch llaeth.



Sut y Tyfodd y Cwmni?

Sefydlwyd Welsh Hills Bakery yn gwmni pobi ym 1956 a gweithredai o leoliadau yn Aberafan ac Aberdâr cyn symud i'w leoliad presennol ym 1986. Mae'r safle presennol mewn perchnogaeth breifat a chafodd ei adeiladu drwy addasu safle a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel garej geir. Ym 1986, nid oedd safleoedd gradd bwyd addas ar gael yn yr ardal, a dyna pam aethpwyd ati i addasu. Yn 2002, ehangwyd y safle i ddarparu warws ac mae cynlluniau arfaethedig i ehangu'r safle ymhellach (yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio) yn 2016.

Wrth i'r busnes dyfu, bu'r cwmni'n ystyried symud ond gwnaed y penderfyniad bob tro i ehangu'r safle yn y lleoliad presennol am y prif resymau canlynol:

- 1) Mae'r safle presennol yn cyrraedd safonau bwyd ac mae cyflenwadau cyfleustodau yn eu lle. Nid oes safleoedd gradd bwyd addas yn yr ardal, felly byddai symud yn golygu costau sylweddol i ateb y gofynion.

- 2) Mae'r safle bellach yn gyfleuster cynhyrchu di-glwten a di-wenith ac mae'r holl gynnyrch sy'n cael eu cynhyrchu ar y safle yn ddi-glwten a di-wenith. Fel menter fwyd sy'n arbenigo mewn cynnyrch di-glwten/gwenith a heb gynnyrch llaeth, byddai'n anodd i'r busnes rannu safle gyda mathau eraill o fusnesau bwyd. Mae bod mewn uned ar wahân, heb fod wrth ymyl safleoedd bwyd eraill, yn ei gwneud yn llawer haws osgoi halogi ac felly mae hyn yn fanteisiol.
- 3) Mae llawer o drigolion yr ardal leol yn cael eu cyflogi gan y cwmni. Mae'r busnes yn ffynhonnell bwysig o swyddi yn yr ardal.
- 4) Yn y gorffennol, ni wrthodwyd caniatâd cynllunio i ehangu a bu'r Awdurdod Lleol yn gynorthwyol a chefnogol iawn.

Ym 1986 roedd y safle wedi'i amgylchynu gan dir ffermio, ond yn ystod y 10 mlynedd diwethaf bu datblygiadau preswyl yn yr ardal. Bu'n rhaid i ddyluniad yr estyniad arfaethedig roi ystyriaeth i hyn. O ganlyniad, mae'r estyniad arfaethedig wedi'i leoli ar yr ochr lle nad oes tai preswyl yn bodoli a gallai fod cyfyngiadau ynglŷn ag uchder cyffredinol yr estyniad. Mae ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol, cynghorwyr a thrigolion o'r cychwyn yn hanfodol bwysig.


Fel safle di-glwten/gwenith a heb gynnyrch llaeth, mae'n rhaid i'r cwmni gydymffurfio â safonau llym a osodir gan y diwydiant a gweithredu yn unol â rheolaethau caeth. Caiff pob swp o gynhwysion perthnasol a phob swp o'r nwyddau gorffenedig eu profi mewn "labordy mewnol", a chaiff y nwyddau eu rhyddhau o gael canlyniad < 20ppm glwten (y rhan fwyaf o ganlyniadau < 10ppm), a < 2.5ppm cyfanswm llaeth. Caiff cynnyrch, gweithdrefnau a pheiriannau eu monitro'n gyson i sicrhau eu bod yn cyrraedd ac yn gweithredu y tu hwnt i safonau uchel o reolaeth ansawdd. Mae Welsh Hills Bakery wedi'i Achredu â Gradd "A" gan BRC. Mae'r cyfleusterau ar y safle yn cynnwys yr ardaloedd canlynol:

- Storio nwyddau
- Ardal bwyso
- Cymysgu
- Cynhyrchu
- Pobi
- Oeri
- Datbanio
- Torri/gorffen
- Pecynnu
- Storio nwyddau gorffenedig
- Anfon

Mae'r uchod yn golygu bod angen safle pwrpasol ac yn awgrymu y gallai fod mai'r prif nod, ar gyfer y math hwn o fusnes, yw sicrhau bod gan fusnesau fynediad i dir yn y lleoliadau iawn neu eu cynorthwyo i gael caniatâd ar eu safleoedd presennol, yn hytrach na mynediad at safleoedd gradd bwyd sydd wedi'u hadeiladu'n barod.

Yn gyffredinol, strategaeth y cwmni fu datblygu safle pwrpasol ac ehangu ar eu safle presennol cyn belled ag a fu'n bosibl. Mae ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned leol wedi helpu'r broses hon.

This drawing is subject to copyright and should not be altered, copied or reproduced without the prior consent of Sweett (UK) Limited. Do not scale from this drawing. If you need A5/A4.



Sweett (UK) Limited 31 Great George Street Bristol BS1 3QJ Tel: +44 (0)117 328 0735			
<p>CLIENT WELSH HILLS BAKERY PROPOSED EXTENSION HIRVAUN</p> <p>PROPOSED BLOCK PLAN OPTION 1</p>			
DATE	BY	DATE	BY
1900	AS		
MP	HK		HK
01/02/2018	01/02/2018	01/02/2018	01/02/2018
WHB/02			

Gwersi a Ddysgwyd

Aeth llawer o'r prosesau ar gyfer y datblygiad hwn rhagddynt yn gymharol dda, er bod un brif wers i'w dysgu o'r astudiaeth hon.

Cyngor: Ymgysylltwch â rhanddeiliaid y gymuned leol o'r cychwyn. Lle y bo'n bosibl, dylech ddatblygu a chynnal perthynas dda gyda rhanddeiliaid a phobl leol yn eich ardal gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cefnogaeth leol i gyfleoedd ehangu.

Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi enghraifft o achos lle mae busnes wedi parhau i dyfu ac ehangu, gyda pherthynas gefnogol â'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Lle y bu angen ehangu, bu'r broses o gael caniatâd cynllunio yn gymharol syml. Mae hyn yn rhannol am fod y busnes yn cyflogi pobl leol ac mae'r manteision economaidd i'r ardal leol yn eglur iawn. Os yw'r bobl a sefydliadau lleol yn gefnogol i'ch busnes, rydych yn llawer llai tebygol o gael gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio, gan olygu bod y broses yn gyflymach ac yn haws. Mae agwedd gefnogol yr Awdurdod Lleol hefyd i'w gymeradwyo o ran cefnogi'r busnes lleol.

Cyngor: Byddwch yn glir ynglŷn â manteision o ran swyddi.

Lle y mae manteision o ran swyddi i bobl leol, neu lle y gallai fod manteision felly, gwnewch hyn yn glir i rhanddeiliaid a thrigolion lleol ar y camau cyn cynllunio ac ymgynghori fel eu bod yn deall gwerth cymdeithasol y datblygiad.

Er nad yw'r caniatâd cynllunio wedi'i roi eto ar gyfer yr estyniad ychwanegol, bydd y siawns o gael caniatâd wedi'i gynyddu yn sgil agwedd ragweithiol y cwmni at ymgysylltu a'i ofal wrth barchu'r ardal o amgylch a sicrhau'r effaith leiaf posib lle bynnag y bo modd.